


Garn Fawr

Teithiau Byr



Garn Fawr

Teithiau Byr

Hyd: 1 awr

Pellter: 1.6 milltir (2.6 km)

Cludiant cyhoeddus: *Strumble Shuttle 404 (*tymhorol, galw a teithio).

Cyfeirnod map: SM896388

Garn Fawr yw'r man uchaf ar yr ehangder hwn o arfordir, gyda'i hen biler triongli Ordnance Survey yn sefyll ar 213m (699 troedfedd) uwchben lefel y môr.

Fel arfer, dewisai adeiladwyr y caerau Oes Haearn bwyntiau mantais da. Yng Ngharn Fawr dewiswyd bryn sydd nawr â golygfeydd godidog dros yr arfordir, y goleudy ym Mhen-caer a phenrhyn gwastad Pen-caer i'r gogledd a'r dwyrain.

Roedd y bobl a adeiladodd y gaer dros 2,500 o flynyddoedd yn ôl yn gwneud defnydd da o linell naturiol y bryn, gan gysylltu ei frigiadau caregog gyda waliau i ffurfio amddiffynfeydd da.

Dros y blynyddoedd mae rhai cerrig wedi cael eu symud neu eu cymryd oddi yno, ond fe allwch chi weld llawer o batrwm ei rhagfuriau o hyd. Mae yna olygfan o'r Rhyfel Byd Cyntaf ar y bryn hefyd.

Mae'r olygfan yn edrych allan dros dirwedd a grëwyd gan ddigwyddiadau daearegol drammatig dros 440 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Bryd hynny roedd llosgfynyddoedd yn weithgar yn yr ardal, ac yn poeri llifoedd lafa a oerodd i ffurfio creigiau igneaidd caled iawn.

Mewn rhai manau ni chyrhaeddodd y graig dawdd yr arwyneb ond oerodd yn araf o dan y ddaear. Mae'r mewnwthiadau igneaidd hyn wedi



gwrthsefyll yr erydiad yn well na'r haenau o'u cwmpas i ddod yn glegyr caregog.

Un mewnwthiad yw Garn Fawr, ac mae ei chymdogion i'r dwyrain, Garn Fechan a Garn Gilfach hefyd yn fewnwthiadau.

Chwiliwch hefyd am yr adfail bychan wrth ymyl y trac ger fferm Tal-y-Gaer. Credir mai cell meudwy canoloesol yw'r adeilad hwn, ond efallai ei fod yn hynach eto.

Ychydig oddi ar y llwybr mae cildraeth prydferth Pwll Deri, ym mreichiau clogwyni serth trawiadol. Mae'r garreg goffa gerllaw yn coffau'r bardd Dewi Emrys (1879-1952), y mae ei gerdd Pwll Deri yn dathlu'r ardal hon.

Yn hwyr yn yr Haf efallai y clywch chi alwad y morloi. Mae yna boblogaeth fawr o forloi llwyd yn arfordir gogledd Sir Benfro ac yn hwyr ym mis Awst a mis Medi maen nhw'n geni eu rhai bach mewn cildraethau tawel fel Pwll Deri.